

Profiad sy'n canolbwyntio ar waith o fewn Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Mae dysgu drwy weithgareddau sy'n canolbwyntio ar waith yn rhan hanfodol o Gyrfaoedd a'r byd gwaith (GBG). Mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n datblygu sgiliau myfyrwyr yn uniongyrchol o ran eu dealltwriaeth a'u gallu yn y byd gwaith. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau profiad gwaith.

Pwrpas cyntaf profiad sy'n canolbwyntio ar waith yw cynyddu cyflogadwyedd a gallu dysgwr unigol yn y byd gwaith yn y dyfodol. Yn syml, cyflogadwyedd yw'r hyn y bydd ei angen ar bobl er mwyn ffynnu yn eu bywyd gwaith yn y dyfodol - cymysgedd o sgiliau, agweddau, gwybodaeth a dealltwriaeth a bydd angen eu cynnal a'u diweddarau drwy gydol oes.

Mae profiadau sy'n canolbwyntio ar waith o fudd i bobl ifanc drwy eu helpu i:

- ddeall y byd gwaith a'r gofynion newidiol sy'n gysylltiedig â bywyd gwaith;
- cadarnhau eu nodau personol, codi eu dyheadau a gosod targedau uchelgeisiol i'w hunain;
- ystyried eu hopsiynau dysgu a'u dewisiadau o ran gyrfa; a
- datblygu'r sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr eu hangen.

Pwrpas y matrices hwn yw nodi'r ystod lawn o weithgareddau profiad sy'n canolbwyntio ar waith y gellid eu darparu ym mhob cyfnod yn y cwricwlwm.

Dylai darparwyr dysgu ystyried y ffordd orau o ddarparu gweithgareddau profiad sy'n canolbwyntio ar waith i ddysgwyr. Y darparwyr sydd i benderfynu ar nifer a chyd-destun cyfleoedd o'r fath.

Gan fod angen i ddarpariaeth GBG fod yn unol ag ethos a chymeriad sefydliad, ac y dylai cwrdd ag anghenion penodol y dysgwyr, ni fydd profiadau sy'n canolbwyntio ar waith yr un peth i bob dysgwr ym mhob maes.

Gweithgaredd profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Ôl-16
1. Deall yr ystod o swyddi a gyflawnir gan bobl yn eu cymuned. (o <i>Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru</i>)	Mae llawer o ysgolion cynradd yn darparu gweithgareddau sy'n berthnasol i ddysgu sy'n canolbwyntio ar waith, fel ymweliadau â chyflogwyr lleol, cyflwyniadau dosbarth gan gyflogwyr, gweithgareddau her sy'n gysylltiedig â diwydiant.				
2. Cyfnodau byr o brofiad gwaith gyda chyflogwr	<p>Diffiniad cyffredin o brofiad gwaith yw gweithgaredd lle mae dysgwr yn cyflawni tasg(au) penodol fwy neu lai fel gweithiwr cyflogedig ond gan roi'r pwyslais ar yr agweddau dysgu'n gysylltiedig â'r profiad.</p> <p>Ni cheir unrhyw ofyniad statudol i ddarparu lleoliadau profiad gwaith ar gyfer pob dysgwr. Fodd bynnag, mae profiad gwaith yn ofyniad gorfodol yn astudiaethau craidd Bagloriaeth Cymru. Mae'n ofynnol i bob myfyriwr weithio gyda chyflogwr, ar leoliad profiad gwaith fel arfer.</p> <p>Mae lleoliadau profiad gwaith o ansawdd yn galluogi dysgwyr i wynebu'r byd gwaith; fodd bynnag, mae angen paratoi'n briodol cyn y lleoliad a briffio a dadfrifio ynghylch iechyd a diogelwch, er mwyn sicrhau bod y lleoliadau mor ddefnyddiol ag sy'n bosibl i'r dysgwyr. Lleoliadau pum niwrnod sy'n arferol ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.</p>				

Gweithgaredd profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Ôl-16
3. Ymweliadau â diwydiant	Mae ymweliadau â diwydiant yn rhoi profiad uniongyrchol i ddysgwyr o'r pwnc/pynciau y maent yn ei astudio/eu hastudio yn yr ystafell ddosbarth, a'r dull o'i gymhwyso/o'u cymhwyso. Mae ymweliadau o'r fath yn ychwanegu at y cwricwlwm, yn amlygu perthnasedd pynciau unigol i fywyd bob dydd, ac yn galluogi dysgwyr i arsylwi amrywiaeth o wahanol yrfaeodded sy'n gysylltiedig â phynciau.				
4. Dosbarthiadau meistr â chyflogwyr	Mae dysgwyr yn profi amrywiaeth o weithgareddau ymarferol sy'n gysylltiedig â galwedigaeth o fewn sector sgiliau penodol, i'w paratoi i wneud dewisiadau deallus ynglŷn â'u hastudiaethau a'u datblygiad yn y dyfodol.				
5. Efelychiadau busnes	Gweithgareddau chwarae rôl gyfranogol, lle mae angen datrys problemau mewn tîm, sy'n galluogi dysgwyr i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu ac yn cyflwyno cysyniadau busnes fel marchnata, cynhyrchu a phenderfynu strategol; yn aml wedi'u cyflwyno ar ffurf senarios rhyngweithiol/ar-lein;				
6. Cyfranogiad cymunedol sy'n cysylltiedig â gwaith	Yn dibynnu ar natur y gwaith gwirfoddol a gyflawnir, ceir yn aml gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cysylltiedig â gwaith. Yng nghraidd Bagloriaeth Cymru ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed, mae'n ofynnol i bob dysgwr ar lefel sylfaen, canolradd ac uwch gyflawni 30 o oriau o gyfranogiad cymunedol.				

Gweithgaredd profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	ÔI-16
7. Gweithgareddau menter e.e. Menter fach, Menter yr Ifanc	<p>Mae dysgwyr yn gweithio'n annibynnol mewn grwpiau i ymdrin â materion perthnasol sy'n cynnwys elfen o risg ac ansicrwydd ynglŷn â'r canlyniadau terfynol. Fe'u disgwylir i gymryd cyfrifoldeb personol am eu gweithredoedd drwy 'broses fenter' sy'n seiliedig ar bedwar cam:</p> <p>1: Ymdrin â phroblem neu angen 2: Cynllunio'r prosiect neu'r gweithgaredd 3: Rhoi'r cynllun ar waith 4: Gwerthuso'r prosesau.</p> <p>Yng nghraidd Bagloriaeth Cymru ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed, mae'n ofynnol i bob dysgwr ar lefel sylfaen, canolradd ac uwch gymryd rhan mewn gweithgaredd menter tîm.</p>				
8. Diwrnodau diwydiant	<p>Mae cynrychiolwyr o feysydd gyrfa/sgiliau sector penodol yn ymweld â'r ysgol am ddiwrnod cyfan neu hanner diwrnod i weithio'n uniongyrchol â dysgwyr. Fel arfer, caiff cyflogwyr eu rhannu i grwpiau'n seiliedig ar feysydd galwedigaethol. Er enghraifft, gallai grŵp meddygol gynnwys meddyg, nyrs a deintydd. Mae pob grŵp yn rhoi cyflwyniadau byr/yn cynnal sesiwn holi ac ateb/yn rhoi cyngor a gwybodaeth am eu maes gyrfa i ddysgwyr o grŵp blwyddyn benodol. Ar ddiwedd y sesiwn, mae dysgwyr yn symud ymlaen i'r maes galwedigaethol nesaf a ddewiswyd ganddynt.</p>				
9. Profiad o'r byd gwaith ar gyfer y rheiny nad ydy'n nhw'n debygol o fod mewn cyflogaeth daledig	<p>Rhoi cefnogaeth wedi'i dargedu i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledau, mewn lleoliadau realistig ac ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith, er mwyn darganfod sgiliau newydd a datblygu hyder.</p>				

Gweithgarwch profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	ÔI-16
10. Gweithgareddau sy'n datrys problemau cysylltiedig â gwaith	Tasgau byr swydd-benodol a phrofiadau eraill ymarferol sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer sgiliau cysylltiedig â gwaith, e.e. rhedeg siop gwerthu ffrwythau, dehongli cyfres o gyfrifon ariannol, neu gadeirio cyfarfod.				
11. Lleoliadau gwaith estynedig / wedi'u cynnwys yn yr amserlen wythnosol	Mae dysgwr yn gweithio gyda chyflogwr am ran o'r wythnos dros gyfnod estynedig, gan barhau i astudio yn ystod gweddill yr wythnos.				
12. Cysgodi gwaith	Er mwyn cysgodi gwaith, mae angen i ddysgwyr dreulio cyfnodau cymharol fyr yng nghwmni, ac yn arsylwi gweithiwr cyflogedig wrth iddo gyflawni ei rôl mewn proffesiwn penodol. Ni ddisgwylir i'r dysgwr gyflawni unrhyw dasgau. Fel arfer cynigir cysgodi gwaith i ddisgyblion ôl-16. Amrywiad o gysgodi gwaith yw 'Diwrnod mynd â'ch plentyn i'r gwaith' lle mae dysgwr yn treulio'r diwrnod gwaith gyda rhiant/gofalwr yn ei leoliad gwaith.				
13. Cyflwyniadau / gweithdai modelau rôl Dynamo	Mae Dynamo'n annog dysgwyr i anelu'n uwch ac i wireddu eu potensial fel unigolyn. Mae entrepreneuriaid gweithgar a llwyddiannus ar draws Cymru'n ymddwyn fel modelau rôl, gan gyflwyno ei stori, archwilio uchafbwyntiau ac isafbwyntiau rhedeg busnes, a threulio amser yn rhyngweithio â'r disgyblion drwy holi cwestiynau a chynnal gweithgareddau.				

Gweithgaredd profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Ôl-16
14. Cynhadledd dewisiadau gyrfaoedd/opsiynau	Mae cynhadledd gyrfaoedd yn rhoi cyfle i ddysgwyr siarad â chyflogwyr, sefydliadau hyfforddi a chynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae digwyddiadau o'r fath yn ddefnyddiol iawn pan fydd disgyblion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u hopsiynau ôl-14 ac ôl-16.				
15. Sesiynau blasu	Yn galluogi dysgwyr i dreulio cyfnodau byr (hyd at hanner diwrnod) gyda chyflogwyr yn edrych ar gyfleoedd am swyddi mewn proffesiwn penodol.				
16. Cyflogwr yn mentora	Mentora yw'r perthynas lle mae mentor o'r byd gwaith yn helpu dysgwr, a allai fod angen anelu'n uwch a datblygu ei hyder, i gadarnhau ei dargedau personol a chyflawni ei nodau mewn bywyd ac mewn gwaith. Gall mentora ddigwydd rhwng model rôl o fyd busnes a dysgwyr unigol neu grŵp o ddysgwyr.				
17. Ffug-gyfweliadau	Mae ffug-gyfweliadau'n rhoi cyfle i bobl ifanc baratoi ar gyfer, a chael ymarfer cyfweliad gyda chyflogwr. Yna mae'r cyflogwr yn cynnig adborth ynghylch sut y gallant wella eu technegau a'u sgiliau mewn cyfweliad. Gall cyflogwyr hefyd roi adborth ynghylch CVs, ffurflenni cais a llythyrau cyflwyno.				

Gweithgaredd profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	ÔI-16
18. Cefnogaeth gan gyflogwyr i ddylunio a chyflenwi'r cwricwlwm	Yn aml, caiff prosiectau penodol eu dylunio i gyfoethogi'r cwricwlwm a'i wneud yn fwy perthnasol. Gallai cyflogwyr roi cyflwyniad i'r dysgwyr ar agwedd o'u sefydliad, sy'n gysylltiedig ag uned waith penodol e.e. cynghorydd ariannol/swyddog banc yn siarad â myfyrwyr Astudiaethau Busnes. Fel arall, gallai cyflogwyr gyflenwi deunyddiau ac adnoddau addysgol i gefnogi'r dysgu ac addysgu.				
19. Clybiau Gyrfaoedd	Mae clybiau gyrfaoedd yn helpu dysgwyr i gael profiad uniongyrchol o faes gyrfa benodol. Mae'r clwb yn trefnu cyflwyniadau/sesiynau holi ac ateb gan weithwyr cyflogedig o ystod o feysydd gyrfa.				
20. Modelau rôl lleol	Estyn gwahoddiad i gyn-fyfyrwyr rannu eu profiadau personol o'r byd gwaith.				

Cyfleoedd eraill i ennill profiad sy'n canolbwyntio ar waith	Disgrifiad	Matrics profiadau sy'n canolbwyntio ar waith fesul cyfnod			
		Cyfnod Allweddol 2	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	ÔI-16
21. Gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol	Er enghraifft, mae clybiau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn rhoi amser i ddysgwyr gymhwyso ac ymestyn sgiliau a chysyniadau a gaiff eu haddysgu yn yr ystafell ddosbarth.				
22. Mentrau bychain a redir gan ddysgwyr mewn ysgolion arbennig	Er enghraifft, mae gan un ysgol siop masnach deg. Rhedir y siop gan grŵp o bobl ifanc 14 i 19 oed, ac mae'n rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr gael dysgu sut i ddatblygu cynllun busnes, cynnal ymchwil o'r farchnad ymysg dysgwyr ac aelodau staff eraill, archebu eitemau, gwirio stoc, trin arian a rheoli cyfrifon.				
23. Cyflogaeth ran amser	Gall cyflogaeth ran amser roi profiad uniongyrchol a gwerthfawr o'r byd gwaith. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth ar gyflogi plant, yn cyfyngu ar yr oedran lle gellir cyflogi plentyn yn rhan amser, ac ar nifer yr oriau y gellir cyflogi plant ysgol i'w gweithio (13 i 15 oed).				